# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 35(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil diogelwch cladin

(30 munud)

**NDM7828**

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Peter Fox (Mynwy)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i sicrhau diogelwch cladin ar adeiladau yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai sicrhau diogelwch preswylwyr drwy sicrhau bod cladin diogel ar gael ar adeiladau.

**Cefnogwyr:**

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

## 7 Dadl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: Craffu ar y broses o roi'r ddeddf ar waith

(60 munud)

**NDM7841**

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi:

a) Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd sef, Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yma, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021;

b) Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ar 5 Hydref 2021;

c) Ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i Adroddiad y Pwyllgor, dyddiedig Awst 2021;

d) Ymateb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i Adroddiad y Pwyllgor, dyddiedig 3 Medi 2021;

e) Ymateb y Llywydd i Adroddiad y Pwyllgor, dyddiedig 22 Medi 2021;

f) Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef, Felly beth sy’n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol, dyddiedig 8 Hydref 2021; ac

g) Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sef Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, dyddiedig 8 Hydref 2021.

Adroddiadau ac ymatebion

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Rheoleiddio canolfannau achub ac ailgartrefu anifeiliaid

(60 munud)

**NDM7840** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod anifail anwes am oes, nid ar gyfer y Nadolig neu achlysur arbennig yn unig.

2. Yn nodi bod nifer anhysbys o ganolfannau achub ac ailgartrefu anifeiliaid yng Nghymru.

3. Yn nodi ymhellach Gynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26 Llywodraeth Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud diwygiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 i:

a) cyflwyno rheoliadau ar gyfer canolfannau achub ac ailgartrefu a llochesau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar-lein, erbyn 2023;

b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n ailgartrefu mwy na thri anifail dros gyfnod o 12 mis ddatgan eu gweithgareddau a chael trwydded gan eu hawdurdod lleol;

c) sicrhau isafswm hyfforddiant, staffio a safonau amgylcheddol i bob canolfan eu bodloni er mwyn sicrhau lles anifeiliaid yn eu gofal.

Ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26, Llywodraeth Cymru

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 4 ac ychwanegu pwyntiau newydd:

Yn cydnabod gwaith allweddol arolygwyr lles anifeiliaid yr awdurdodau lleol o ran cynnal safonau uchel ar gyfer lles anifeiliaid.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno rheoliadau ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru, fel canolfannau achub ac ailgartrefu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar-lein;

b) datblygu trefniadau er mwyn diogelu safonau gofynnol o ran hyfforddiant, staff a'r amgylchedd er mwyn sicrhau lles anifeiliaid mewn sefydliadau lles anifeiliaid;

c) gwella'r cymwysterau ar gyfer arolygwyr lles anifeiliaid er mwyn codi eu statws proffesiynol;

d) cefnogi awdurdodau lleol i atgyfnerthu eu cydnerthedd er mwyn helpu i reoli'r dosbarthiad anghyson o sefydliadau lles anifeiliaid ar draws Cymru;

e) ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch sut y dylai unigolion sy'n ailgartrefu anifeiliaid ddatgan eu gweithgareddau o dan drwydded oddi wrth eu hawdurdod lleol.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7839** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Polisi cyffuriau yng Nghymru a'r DU: dechrau sgwrs genedlaethol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 17/11/2021 i'w hateb ar 24/11/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ57234 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gydol oes?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ57222 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella diogelwch cymunedol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ57240 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r cyflog byw go iawn ledled Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ57217 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wneud Cymru'n genedl noddfa i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ57225 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella cynhwysiant ariannol yn ne-ddwyrain Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ57231 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog cyrff cyhoeddus i ystyried egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol wrth gyflawni eu dyletswyddau?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ57238 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Buffy Williams** *Rhondda*

8 OQ57218 **(e)**

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i liniaru tlodi plant?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

9 OQ57250 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Post Brenhinol ynglŷn ag effaith COVID-19 ar ei wasanaethau?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ57242 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd mewn perthynas â diogelwch menywod?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

11 OQ57243 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Nwyfor Meirionnydd?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ57223 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda chlybiau nos a rhanddeiliaid eraill ynghylch gwella diogelwch menywod yn eu lleoliadau?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

1 OQ57245 **(e)**

Pa gyngor y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch ei phwerau i gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ57230 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am fynediad at gyngor ar gyfraith gyhoeddus yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ57249 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog pobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4

## OQ57227 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y cymorth a roddir i deuluoedd gan y system gyfiawnder yng Nghymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

5

## OQ57252 (w)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsel Cyffredinol wedi'i roddi i Lywodraeth Cymru ynghylch cyfrifoldeb am ddifrod yn sgil llifogydd?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

6

## OQ57232 (e)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch y gwaharddiad ar ddeunyddiau cladin llosgadwy a weithredwyd gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7

## OQ57247 (e)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd ar gyfer hawliau sifil yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

8

## OQ57235 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru o ran ymestyn yr etholfraint i garcharorion?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

9

## OQ57244 (e)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar reoliadau diogelwch tomenni glo?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

10

## OQ57237 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch diweddariad i'r adolygiad o gymorth cyfreithiol troseddol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

11

## OQ57246 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol egluro'r rhesymeg dros sefydlu'r Comisiwn Cyfansoddiadol yn awr?

## COMISIWN Y SENEDD

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

1 OQ57241 **(e)**

Beth yw polisi'r Comisiwn ar ddefnyddio ystâd y Senedd ar gyfer digwyddiadau allanol?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OQ57236 **(e)**

Beth mae'r Comisiwn yn ei wneud gydag offer TG nad yw bellach yn addas i'r diben?